



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Adroddiadau Gwerthuso Cyfres Seminarau a BRIFF 2021-2022

Adroddiad Gwerthuso Cyfres Seminarau

Cyflwyniad

Cyfres Seminarau Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru

Ers ei sefydlu ym mis Ionawr 2021, mae Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru wedi cynnal dwy gyfres o seminarau - cynhaliwyd cyfres gyntaf “yr haf” o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2021, ac ail gyfres “y gaeaf” o fis Chwefror i fis Mawrth 2022. Roedd chwe seminar ym mhob cyfres.

Cynulleidfa graidd y gyfres o seminarau oedd gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru, sy'n cynnwys asiantaethau wedi'u datganoli a heb eu datganoli, cydweithwyr o'r sector cyhoeddus, preifat, addysg a'r trydydd sector.

Nod y gyfres oedd codi proffil y gwahanol feysydd o ddiogelwch cymunedol, i dynnu sylw at arferion gorau ledled Cymru, ac i roi cyfle i gynrychiolwyr rwydweithio. I gael rhagor o wybodaeth am destun pob seminar, cliciwch [yma](#). Ar y dudalen hon hefyd, mae recordiad o'r seminarau, copi o gyflwyniadau'r siaradwyr, a phecynnau ar ôl y seminar. Roedd cyflwyniadau gan fwy nag un siaradwr ym mhob seminar, ac roedd panel holi ac ateb ym mhob seminar. Cynhyrchwyd taflen o gwestiynau cyffredin a'i rhannu gyda'r cynrychiolwyr fel rhan o'r pecynnau ar ôl y seminarau, er mwyn nodi'r cwestiynau a'r trafodaethau a gynhaliwyd rhwng y cynrychiolwyr a'r cyflwynwyr.

Cofrestrwyd 119 o bobl ar gyfer cyfres yr haf, a 285 o bobl ar gyfer cyfres y gaeaf.

Ffurflenni Gwerthuso

Yn dilyn y seminarau, gofynnwyd i gynrychiolwyr lenwi ffurflenni gwerthuso ar ddiwedd y digwyddiad ac mewn e-bost dilynol.

Nod y gwerthusiad oedd darganfod pa mor ddefnyddiol oedd y seminar i'r gynulleidfa, pa mor berthnasol oedd y cynnwys, pa destunau yr hoffent weld y Rhwydwaith yn eu trafod mewn seminarau yn y dyfodol, a pha lwyfannau oedd y rhai mwyaf llwyddiannus wrth hyrwyddo'r seminarau i ddenu eu sylw.

Ymatebodd 24 o bobl i'r ffurflen werthuso o seminarau'r haf, a 21 o bobl i gyfres y gaeaf.

Canfyddiadau

Yn y ddwy gyfres, sgoriwyd dogfen friffio wythnosol Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru "Briff" naill ai'r uchaf neu'r ail uchaf o ran sut yr oedd cynrychiolwyr wedi clywed am y seminar. I ddilyn hynny roedd y categori "arall", Eventbrite, ar lafar, rhestrau postio penodol (fel rhestr bostio Rhwydwaith Ymarferwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol), a chyfryngau cymdeithasol.

Pan ofynnwyd iddynt beth oedd eu hamcanion drwy fynychu cyfres yr haf, nododd 17 o gynrychiolwyr "diddordeb yn y pwnc", nododd 15 "i ddysgu am faterion diweddar neu sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'm gwaith", nododd 11 i "rannu arferion gorau" a nododd 11 arall "i ddysgu mwy am Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru".

Gan ymateb i'r un cwestiwn ar gyfer cyfres y gaeaf, nododd 18 o gyfranogwyr "i ddysgu am faterion diweddar neu sy'n dod i'r amlwg sy'n berthnasol i'm gwaith", nododd 16 "diddordeb yn y pwnc", a nododd 13 i "rannu arferion gorau".

Pan ofynnwyd iddynt faint oedd y seminar wedi diwallu eu disgwyliadau, nododd 75% o gynrychiolwyr cyfres yr haf "rhagorol" ar gyfer siaradwyr, nododd 58.3% "rhagorol" ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth, a 62.5% yn nodi "rhagorol" ar gyfer y digwyddiad yn gyffredinol. Yng nghyfres y gaeaf, atebodd 76.2% "rhagorol" ar gyfer siaradwyr, 61.9% wedi nodi "rhagorol" ar gyfer y cwestiynau a thrafodaeth, a 71.4% wedi nodi "rhagorol" ar gyfer y digwyddiad yn gyffredinol.

Yn y ddwy gyfres, ni wnaeth unrhyw gyfranogwr nodi "Gwael" ar gyfer unrhyw un o'r uchod.

Wrth ofyn am berthnasedd y cynnwys, yng nghyfres yr haf nododd 17 o gyfranogwyr "Rhagorol" a nododd 7 "Da" ; yng nghyfres y gaeaf nododd 16 "Rhagorol" a 5 yn nodi "Da".

Holwyd y cynrychiolwyr a fyddent yn gwneud unrhyw beth yn wahanol o ganlyniad i fynychu'r seminar. Ar y cyfan, nododd y cynrychiolwyr: fod ganddynt well dealltwriaeth a gwybodaeth i'w rannu gyda chydweithwyr, partneriaid a dioddefwyr; byddant yn cysylltu â'r siaradwyr / cynrychiolwyr eraill i barhau â'r drafodaeth a gweithio mewn partneriaeth; a nododd wyth ymatebwr na fyddent yn newid neu nad oeddent yn sicr o unrhyw newid.

Mae'r tri dyfyniad isod yn crynhoi'r ystod o atebion a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn gan 15 ymatebwr yng nghyfres yr haf:

"Byddaf, byddaf yn defnyddio'r wybodaeth a nodwyd ar sbardunau cymunedol i wella sut yr ydym yn delio â dioddefwyr".

"Byddaf - byddaf yn gweithio'n agosach gyda Heddlu Dyfed Powys a'u cynorthwyo i gael y wybodaeth sydd ei hangen er mwyn symud ymlaen ag achosion gyda'n gilydd."

"Mwy o gynllunio wrth baratoi ymgyrchoedd. Eisoës yn defnyddio Canva, teclyn defnyddiol iawn".

Mae'r tri dyfyniad isod yn crynhoi'r ystod o atebion a roddwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn gan 13 o ymatebwyr cyfres y gaeaf:

“Roedd yn ddefnyddiol o ran iaith a theminoleg. Roedd yn dda clywed gan brosiectau / cynlluniau peilot eraill nad oeddem yn ymwybodol ohonynt.”

“Sefydlu system mapio gyda Thrafnidiaeth Cymru, mapio graffiti hiliol ac iaith sy'n ennyn casineb.”

“Ymuno â Rhestr Bostio Cymunedau Mwy Diogel a mynychu hyfforddiant yn y dyfodol. Mae wedi gwella fy nealltwriaeth o eithafiaeth y dde eithafol.”

Pan ofynnwyd i gynrychiolwyr am sylwadau pellach am y seminar, yng nghyfres yr haf nododd 50% o'r ymatebwyr gyda rhywbeth cadarnhaol am y “siaradwyr”; yng nghyfres y gaeaf nododd 25% fod y seminar yn “llawn gwybodaeth”. Mae crynodeb o'r geiriau poblogaidd yn ymatebion y cynrychiolwyr wedi'i nodi isod ar gyfer pob cyfres.

Cyfres yr Haf



Cyfres y Gaeaf



Pan ofynnwyd a oedd testunau eraill yr hoffai'r cynrychiolwyr eu trafod mewn seminarau yn y dyfodol gan Rwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, ymatebodd 12 o bobl yng nghyfres yr haf, ac ymatebodd 5 yng nghyfres y gaeaf. Roedd y testunau a awgrymwyd yn cynnwys:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Trosedd Cyfeillio
- Camfanteisio ar grwpiau ar y cyrion

- Datrys problemau
- Asesiad Lles a Data Cenedlaethau'r Dyfodol
- Ymgysylltu â dinasyddion a chymunedau
- Ymyraethau cynnar ac ymagwedd iechyd cyhoeddus
- Cam-drin domestig / Cam-drin Hunan-serch
- Atal ACE
- Ideolegau
- Cymuned LBGTQ
- Troseddau gangiau a chyllyll

Yn olaf, gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a oedd yn hawdd iddynt archebu lle a mynychu'r seminar. Ymatebodd 39 o bobl (20 yn yr haf, 19 yn y gaeaf) a bu i bob un heblaw un gadarnhau eu bod wedi archebu a mynychu yn hawdd. Yr eithriad oedd rhywun nad oedd yn gyfrifol am archebu lle.

Hoffai tîm y Rhwydwaith ddiolch i bawb a dreuliodd amser yn ymateb i'r ffurflenni gwerthuso a byddant yn parhau i werthuso cyfresi seminarau'r dyfodol i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion ein cynulleidfaoedd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â safercommunities@wlga.gov.uk.

Adroddiad Gwerthuso BRIFF

Cyflwyniad

BRIFF

Rhwng 7 Rhagfyr 2021 a 28 Ionawr 2022, cynhaliodd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru arolwg boddhad am y Briff. Ar adeg cau'r arolwg, cyhoeddwyd 47 rhifyn dros e-bost. Y gynulleidfa graidd yw gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol yng Nghymru, sy'n cynnwys asiantaethau wedi'u datganoli a heb eu datganoli, cydweithwyr o'r sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Nod y Briff yw nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth, erthyglau newyddion, papurau ymchwil, adroddiadau ac eitemau'r cyfryngau o fewn maes diogelwch cymunedol er mwyn i Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru gwblhau eu gwaith o ddydd i ddydd gyda'r wybodaeth ddiweddaraf.

Mae'r Briff wedi'i rannu'n ddeg testun, ac yn cynnwys dolenni cyswllt i adnoddau amlygyfrwng, megis cynnwys ysgrifenedig, ffilmiau, podlediadau, eitemau radio neu gyfweiliadau teledu, taflenni a mwy. Ar ôl sefydlu gwefan <https://cymunedaumwydiogel.cymru/> ym mis Medi 2021, addaswyd testunau'r Briff i adlewyrchu'r 10 prif [destun](#) ar y wefan.

Yr Arolwg

Nod yr arolwg oedd canfod pa mor ddefnyddiol yw'r Briff i'r gynulleidfa, trwy ofyn pa mor aml mae pobl yn darllen y Briff, pa mor ddefnyddiol yw'r cynnwys a'r arddull, pa feysydd testun sydd fwyaf defnyddiol iddynt, a pha newidiadau y gellir eu gwneud i wella.

Cafwyd 19 ymateb i'r arolwg o bob cwr o Gymru. Roedd y ddolen i gymryd rhan yn yr arolwg wedi'i chynnwys ym mhob rhifyn o'r Briff ac yn yr e-bost am 5 wythnos, ac ar gyfryngau cymdeithasol. Ar adeg yr arolwg, anfonwyd y Briff at 186 o bobl drwy e-bost, gydag o leiaf un derbynnydd yn rhannu'r arolwg gyda chydweithwyr eraill.

Yn y misoedd cyn cynnal yr arolwg, roedd tîm y Rhwydwaith wedi bod yn casglu adborth ysgrifenedig ac ar lafar am y Briff, ac ni chafwyd unrhyw adborth negyddol.

Canfyddiadau'r Arolwg

Pan ofynnwyd pa mor aml mae cyfranogwyr yn darllen y Briff, nododd 12 o bobl (63%) "bob wythnos", tri yn nodi (16%) "arall", a dau (11%) yn nodi "bob pythefnos".


Cynnwys

Pan ofynnwyd iddynt sgorio cynnwys y Briff o 1-5, gyda 5 yn "hynod ddefnyddiol" ac 1 "ddim yn ddefnyddiol", y rhif cyfartalog oedd 4.53, gyda 11 o gyfranogwyr yn rhoi sgôr o 5, a saith yn rhoi sgôr o 4.

6. Which topic areas do you find most helpful in the Briff?

[More Details](#)

● Training & Events	16
● Anti-Social Behaviour & Disorder	12
● Crime & Crime Prevention	15
● Equalities, Inclusion & Cohesion	12
● Public Safety	9
● Modern Slavery & Exploitation	8
● Offending & Justice	9
● Safeguarding & Early Interventi...	12
● Serious Violence & Organised C...	11
● Terrorism & Extremism	8
● Violence Against Women, Dome...	13



Roedd y darnau “mwyaf defnyddiol” yn y Briff wedi’u sgorio gan y cyfranogwyr gyda Hyfforddiant a Digwyddiadau yn derbyn y sgôr uchaf (16), yna Trosedd ac Atal Troseddau (15), a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (13). Ond, roedd pob testun wedi derbyn sgôr o wyth neu fwy, gan olygu bod gan bob un ddiben ar gyfer y darllenydd.

Nododd 11 o ymatebwyr sylwadau o ran pa newidiadau a fyddai’n gymorth i sicrhau bod cynnwys y Briff yn fwy addas ar gyfer eu hanghenion. Nododd nifer o ymatebwyr bethau tebyg, gyda thri dyfyniad isod.

“Ystod ehangach o gyfranogwyr i gael gwell cynrychiolaeth o waith asiantaethau perthnasol yng Nghymru”.

“Rwy’n credu ei fod yn ddarn o waith ar y cyd rhagorol, sy’n uno sawl agwedd ac elfen o’r portffolio”.

“Dim testun ar goll yn fy marn i! Adnodd hynod ddefnyddiol”

Nododd chwech o’r 11 ymateb (55%) na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau i’r Briff, gofynnodd dau ymatebydd (18%) am gyfle i gael mewnbwn gan bartneriaid, gofynnodd un ymatebydd (9%) am “fwy am droseddau casineb”, gofynnodd un ymatebydd am “adran benodol o wybodaeth ar gyfer Cymru’n unig” ac “ar gyfer CLILC”, ac awgrymodd un ymatebydd y dylid cael “canolbwynt ar unigolyn neu sefydliad” ym mhob Briff i annog rhwydweithio.

Roedd saith o’r 19 o ymatebwyr wedi rhannu rhywbeth gyda’r Rhwydwaith i’w gynnwys yn y Briff, gyda 12 heb rannu unrhyw beth. Roedd pedwar (33%) wedi nodi nad oedent yn gwybod bod modd gwneud hynny, nododd pedwar (33%) y byddent yn rhannu pe bai ganddynt rhywbeth perthnasol i’w ychwanegu, a nododd 2 (17%)

bod ganddynt gydweithwyr (fel timau cyfathrebu mewnol) i rannu gwybodaeth ar eu rhan.

Fformat

Pan ofynnwyd iddynt sgorio fformat y Briff o 1-5, gyda 5 yn “hynod ddefnyddiol” a 1 yn “ddim yn ddefnyddiol”, y rhif cyfartalog oedd 4.26, gyda 8 (42%) yn rhoi sgôr o 5, wyth cyfranogwr (42%) yn rhoi sgôr o 4, a thri chyfranogwr (16%) yn rhoi sgôr o 3.

Gadawodd 11 o ymatebwyr sylw pan ofynnwyd iddynt pa newidiadau fyddent yn ei wneud i'r Briff. O'r rhain, nododd wyth na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau, nododd un yr hoffent gadw'r eitemau Cymraeg a Saesneg ar wahân, nododd un ymatebydd yr hoffent gael Briff fel “e-bost gyda dolenni cyswllt ynddo (yn hytrach na fel atodiad)”, a nododd un yr hoffent pe bai'n “haws ei ddarllen”, heb unrhyw awgrymiadau o ran sut i wella.

“Dim - hawdd iawn ei ddarllen / llywio, dim gormod o wybodaeth, trefnus iawn”

“Rwy'n hoff o'r fformat, hawdd ei ddilyn.”

“Mae'r fformat yn anodd ei ddarllen ar adegau oherwydd bod y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un ddogfen.”

Nododd 18 o'r 19 o ymatebwyr (mewn glas yn y siart ynghlwm) eu bod yn gallu defnyddio'r dolenni cyswllt yn y Briff, ac mae'n rhaid i un (mewn oren) ddefnyddio'r URL llawn yn yr atodiad.

Sylwadau Terfynol

Rhoddyd cyfle i'r cyfranogwyr rannu unrhyw sylwadau terfynol ar ddiwedd yr arolwg, ac mae rhai ohonynt wedi'u nodi isod.

“Daliwch ati gyda'r gwaith da - rwyf wedi'i argymhell i sawl cydweithiwr”

“Mae'r dogfennau hyn yn ddefnyddiol ac maent wedi bod yn ddefnyddiol yn y ddwy rôl yr wyf wedi bod ynddynt ers dosbarthu'r dogfennau hyn”

“Mae'r Briff yn adnodd rhagorol ar gyfer holl weithwyr proffesiynol diogelwch cymunedol. Heb y Briff byddai'n amhosibl clywed am enghreifftiau o arferion gorau, y newyddion diweddaraf a chyfleoedd hyfforddi. Llongyfarchiadau i'r tîm ar y gwaith rhagorol o gynhyrchu'r Briff”

Camau a gymerwyd

Ers cynnal y gwerthusiad, mae Tîm y Rhwydwaith wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi cymhwyso'r newidiadau canlynol i'r Briff.

- Mae'r tîm wedi annog mewnbyn pellach gan bartneriaid ac wedi ceisio ei gwneud yn gliriach i bartneriaid bod modd iddynt gyflwyno eitemau i'w cynnwys yn y Briff trwy nodi hynny yn yr e-bost a thrwy ddiweddariad ar lafar mewn cyfarfodydd cenedlaethol.



- Mae pob eitem yn y Briff yn benodol i Gymru, neu'n berthnasol i gydweithwyr sy'n gweithio yng nghyd-destun Cymru. Ond, er mwyn gwneud hyn yn gliriach mae rhai eitemau yn cynnwys y frawddeg ganlynol yn y disgrifiad: *"Ddim yn benodol i Gymru, ond o ddiddordeb"*.
- Mae eitemau o ddiddordeb penodol, neu sydd wedi'u cyflwyno gan bartneriaid, mewn piws i gyd-fynd â brand y Rhwydwaith.
- Mae eitemau Cymraeg a Saesneg wedi'u rhannu i golofnau ochr yn ochr yn awr, yn hytrach nag un o dan y llall.
- Mae'r atodiad gyda URL llawn bob eitem wedi'i ddileu, ac mae unrhyw un sy'n methu defnyddio'r dolenni yn derbyn dogfen Word o'r Briff (yn lle PDF) er mwyn iddynt allu copïo a gludo'r dolenni cyswllt yn uniongyrchol.
- Nawr bod y wefan genedlaethol <https://cymunedaumwydiogel.cymru/> yn ei le, mae'r cylchlythyr yn gyhoeddiad bob pythefnos yn awr.

Hoffai tîm y Rhwydwaith ddiolch i bawb am gymryd amser i ymateb i Arolwg y Briff a byddant yn parhau i werthuso'r Briff er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y gynulleidfa yn y modd mwyaf priodol a hygyrch â phosibl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â safercommunities@wlga.gov.uk